Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Tymor y Nadolig – Tachwedd 2017**

Rwy'n gobeithio bod y disgyblion wedi mwynhau'r toriad hanner tymor ac yn barod am wythnosau prysur yn arwain at y Nadolig – yn sicr mae digon o weithgareddau a gwaith o'n blaenau! Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth arbennig yn y ras hwyl lle casglwyd swm ardderchog ar gyfer cronfa a chymuned yr ysgol – diolch bawb am ymdrech arbennig! Hoffwn rannu gyda chi ychydig am drefniadau'r tymor hwn. Fel arfer mae mwy o wybodaeth gyfredol ar gael ar ein gwefan www.ysgolgyfunystalyfera.co.uk. Cofiwch hefyd ymuno â dilynwyr trydar Ystalyfera ar **@YsgolYstalyfera** a'r Cyngor Ysgol ar **@CYYGY.**

**Lluniau Bl 8, 9,11 & 13**

Ar y 15fed o Dachwedd, bydd ffotograffydd yn ymweld a'r ysgol i dynnu lluniau disgyblion unigol Bl 8, 9, 11 a 13. Bydd hefyd llun blwyddyn ar gyfer Bl 11 & 13, fel cofnod o'u blwyddyn 'olaf' yn yr ysgol. Os hoffai Bl 11 /13 gael lluniau proffesiynol o'u ffrindiau, bydd cyfle i wneud hynny y ystod yr awr ginio, yn y Neuadd Fawr, ond bydd rhaid iddynt dalu ar y dydd sef £5 am bob llun.

**Ymgynghoriad Amseroedd Cynradd / Gwaith adeiladu**

Rydym yn ymgynghori ar newid amseroedd yr adran cynradd ar hyn o bryd ac mae llythyron gyda'r manylion ar ein gwefan. **NI FYDD newid** yn yr amseroedd i'r Adran Uwchradd. Mae'r gwaith adeiladu yn Ystalyfera (Adran Cynradd) ar amser, er mwyn agor yn Mehefin 2018. Mae'r gwaith hefyd yn parhau yn wych ar gampws Ysgol Gymraeg Bro Dur, bydd seremoni i ddathlu yr adeilad yn 'sych o'r tywydd', ar y 13eg o Rhagfyr – newyddion da ar gyfer agor yr ysgol ar amser yn Medi 2018.

**Rhifau Cyswllt ac Absenoldebau**

Os ydych wedi newid cyfeiriad neu eich rhif ffôn symudol a wnewch sicrhau ein bod yn ymwybodol o hynny yn yr ysgol - diolch yn fawr. Os **NAD** ydych yn derbyn negeseuon testun gennym ar eich ffôn symudol - yna nid oes gennym eich rhif! Dylech gysylltu â'r Brif Swyddfa i ddiweddaru eich rhifau cyswllt. Cofiwch gysylltu â'r Brif Swyddfa cyn 9am os yw eich mab / merch yn absennol oherwydd salwch - a hynny ar bob bore o absenoldeb. Gofynnwn yn garedig ichi gysylltu â'r Brif Swyddfa hefyd os yw eich mab / merch yn dychwelyd i'r ysgol ar ffyn baglau er mwyn inni allu gwneud trefniadau pwrpasol

**Cyngor ysgol / Fforymau Blwyddyn newydd**

Byddwn yn cynnal ein hetholiadau blynyddol ar gyfer Fforymau Blwyddyn a Chyngor Ysgol yn ystod yr wythnos 13 - 17 o Dachwedd. Byddwn yn cynnal cyfarfodydd hystings, lle bydd cyfle i ddisgyblion i wneud areithiau diddorol a synhwyrol ynglŷn â'u syniadau i wella cymuned yr ysgol. Hoffwn ddiolch i'r cyngor presennol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen at gael cydweithio'n dda â'r cyngor newydd yn ystod y flwyddyn i ddod.

**Ffair Nadolig, Raffl Arbennig ar gyfer cronfa'r ysgol**

Bydd Ffair Nadolig yr ysgol eleni yn ddigwyddiad gwahanol ac amrywiol ar **nos Fercher y 29ain o Dachwedd, 4 - 7pm** ydd y Ffair eleni yn cael ei chynnal yn Bloc Eirion ac rydym yn paratoi ar gyfer dathliad o Nadolig Traddodiadol Cymreig, fydd yn cynnwys perfformiadau gan gorau, partïon a grwpiau o blant yr ysgol. Bydd stondinau amrywiol, gan gynnwys crefftau a bargeinion gwych ar gyfer yr Wŷl. Yn ogystal byddwn yn cynnal Raffl Fawreddog, a bydd pob disgybl yn derbyn dau lyfr o docynnau raffl i'w gwerthu. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth lawn i'r ymgyrchoedd rhain, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn gynnes i noson y Ffair lle gallwn fwynhau ysbryd yr wŷl gyda'n gilydd.

**Prynhawn Gwobrwyo TGAU & Safon Uwch: 21$^{ain}$ Rhagfyr 2017**

Mae'n hyfryd cadarnhau ein trefniadau ar gyfer Seremoni Gwobrwyo disgyblion arholiadau TGAU a Safon Uwch Haf 2017, a hynny ar **brynhawn Iau'r 21$^{ain}$ o Ragfyr am 2pm**. Byddwn yn croesawu cyn-ddisgybl Ysgol Gyfun Ystalyfera, y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AS fel gŵr gwadd, ac edrychwn ymlaen am brynhawn o ddathlu llwyddiant myfyrwyr gyda'n gilydd.

**Gwm Cnoi!**

Nodwch os gwelwch yn dda, nad oes caniatâd i ddod a gwm cnoi i'r ysgol. Os bydd disgyblion yn dod a gwm cnoi i'r ysgol gall gael ei gymryd oddi wrthynt a gallant wynebu cosb bellach, diolch am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

**Digwyddiadau'r Tymor:**

| | |
|---|---|
| Tachwedd 13 - 17 | Wythnos Gwrth Fwlio |
| | Wythnos Etholiadau Fforwm Blwyddyn / Cyngor Ysgol |
| Tachwedd 13 | Gwasanaeth Gideoniaid Bl 7 |
| | Seremoni Tystysgrif Gwobr Dug Caeredin, Theatr Y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot, 7pm |
| Tachwedd 15 | Lluniau Blwyddyn 11 & 13 / Lluniau unigol Bl 8, 9, 11 & 13 |
| | Gŵyl Shakespeare: Neuadd Gwyn, Castell-nedd 7pm |
| **Tachwedd 17** | **HMS 2 – Dim ysgol i ddisgyblion (Cynradd & Uwchradd)** |
| Tachwedd 20 | Lansio Rhwydwaith Seren i ddisgyblion Bl 10, 5pm |
| Tachwedd 23 | Cyfarfod rhieni taith sgio, 6.30pm, Caffi'r Graig |
| Tachwedd 24 | Adroddiadau Interim Bl 9 & 10 |
| | Gweithdy Cymraeg Bl 10 (pm) |
| | Her y Fagloriaeth Bl 13 |
| **Tachwedd 29** | **Ffair Nadolig Ysgol Gymraeg Ystalyfera, Bloc Eirion 4 - 7pm** |
| Tach 27 – Rhag 1 | Ethol Prif Swyddogion |
| Rhagfyr 5 | Gwasanaeth Nadolig y Babanod, 4pm |
| Rhagfyr 6 | Cyngerdd Nadolig Adran Iau, Capel y Wern, 6pm |
| Rhagfyr 7 | Taith i'r Pantomeim – Bl 7 |
| Rhagfyr 8 | Dyddiad Cau ymgynghoriad newid amser Adran Gynradd |
| Rhagfyr 11 - 21 | Ffug brofion TGAU Bl 11 |
| Rhagfyr 12 | Ffau Dreigiau Bagloriaeth Bl 10 |
| | Gwasanaeth Nadolig Adran Uwchradd 5pm & 7pm; Eglwys Dewi Sant |
| Rhagfyr 13 | Seremoni 'Topping out' Ysgol Gymraeg Bro Dur: 10 - 11.30am |
| Rhagfyr 19-21 | Arholiadau Bl 12 & 13 |
| Rhagfyr 21 | Prynhawn Gwobrwyo TGAU a Safon Uwch 2017, 2pm |
| **Rhagfyr 22** | Gwasanaethau Nadolig, Eglwys Dewi Sant |
| | **Diwedd tymor 2.30pm** |
| **Ionawr 8** | **HMS 3 – dim ysgol i ddisgyblion (Cynradd & Uwchradd)** |
| **Ionawr 9** | **Dechrau Tymor y Gwanwyn i bob disgybl (Wythnos 2)** |

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth ddiflino i'r ysgol a chofiwch gysylltu yn gynnar â ni os hoffech fwy o fanylion neu bryderon gennych.

Yn gywir,

Matthew H T Evans
Pennaeth

ON - Cofiwch ymuno â dilynwyr trydar Ystalyfera ar **@YsgolYstalyfera** a'r Cyngor Ysgol ar **@CYYGY.**

Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Dear Parent / Guardian,

**Christmas Term: November 2017**

I hope that our pupils enjoyed their half term break and will return to school energised and full of enthusiasm for the weeks ahead. Firstly, I would like to thank you all for your splendid support for our Annual Fun Run which raised a fantastic total for the school fund – diolch yn fawr! It certainly is yet another busy time of year, and I would like to inform you of a few details during this term. As always, more information can be found on our website and I also urge you to join and follow us on our twitter accounts at **@YsgolYstalyfera** and that of the School Council on **@CYYGY.**

**Yrs 8, 9, 11 & 13 photos**

On the 15th of November, we will welcome photographers to school to take individual photos of years 8, 9, 11 & 13. We will also have a year photo for years 11 & 13 as this is their 'last' year in school. If years 11/13 would like a group photos of friends, there will be also an opportunity to have friendship group during the lunch hour, however they do need to pay on the day (£5 per photo).

**Consultation on change of school time Primary Sector / Construction work**

We are currently consulting on changing times for the primary sector, and letters with more details are on our website. **THERE WILL BE NO** change to the Secondary Sector times. The construction work for the Primary sector at Ystalyfera remains on programme in order to open in June 2018. We are also delighted to report that the work continues on schedule on the Ysgol Gymraeg Bro Dur campus, there will be a 'Topping Out' Ceremony on site on the 13th of December – good news for the programme completion in August 2018.

**Contact numbers and absences**

If you have recently changed address or mobile telephone number please ensure the school is informed of any changes – diolch yn fawr. If you do **NOT** receive text messages on your mobile phone – then we don't have your number! Please contact the main office with your new contact details. If your son / daughter are absent from school due to illness or any other reason, please phone the main school office on each day of absence, before 9am. If your child returns to school on crutches or in need of special circumstances, again please inform us prior to their arrival so that we can make the necessary adjustments.

**New School Council /Year Forums**

We will hold our annual elections for the Year Forums and School Council during the week 13 - 17 November. We will hold our hustings event, whereby individual pupils are able to address their year group and suggest their ideas towards improving the school community. I would like to sincerely thank the present school council for their outstanding work during the year as we look forward to working together with the new council in the year ahead

**Christmas Fair, Grand Raffle to support the school fund**

Our annual Christmas Fair will be held on **Wednesday, 29th November, 4 – 7pm**. We will be holding the event this year in the Eirion block and are preparing for a celebration of a traditional Welsh Christmas, which will include performances from school choirs, groups and ensembles. We expect a variety of stalls, which will include crafts and Christmas bargains in preparation for the festive season. We are also organising a Grand Raffle, and each pupil will receive two raffle books to sell within his/her community. We kindly ask for your support in these initiatives, as we look forward to warmly welcoming you and your family to the Fair and celebrate together.

**GCSE and A Level Award Celebration: 21st December 2017**

It is a pleasure to confirm our arrangements for our GCSE and A Level Award Celebration, on **Thursday afternoon, 21st of December at 2pm**. We are delighted that our guest speaker will be former Ysgol Gyfun Ystalyfera pupil, Counsel General Jeremy Miles AM. We look forward to celebrating our pupils' success during this special Award Ceremony.

**Chewing Gum!**

Please note that chewing gum is not allowed in school, any pupil who brings gum to school will have this confiscated and could face further reprimand – we thank you for your support in this matter. Diolch.

**Term events**

| | |
|---|---|
| November 13 - 17 | Anti-Bullying week |
| | Year forum / school council elections |
| November 13 | Gideons Assembly Yr 7 |
| | Duke of Edinburgh Award Ceremony, Princess Royal Theatre, 7pm |
| November 15 | Year 11 & 13 photo / Individual photos Yr 8, 9, 11 & 13 |
| | Shakespeare School Festival: Gwyn Hall, Neath 7pm |
| **November 17** | **INSET 2 – No school for pupils (Primary & Secondary)** |
| November 20 | Launch of Seren Network for Year 10 pupils, 5pm |
| November 23 | Skiing trip parents evening, 6.30pm Caffi'r Graig |
| November 24 | Interim Reports Yr 9 & 10 |
| | Year 10 Welsh workshop (pm) |
| | Year 13 Welsh Baccalaureate Challenge |
| **November 29** | **Christmas Fair: Ysgol Gymraeg Ystalyfera, Eirion Block 4 - 7pm** |
| Nov 27 – Dec 1 | School Prefect Elections |
| December 5 | Christmas Concert Infants, 4pm |
| December 6 | Christmas Concert Juniors, Capel y Wern, 6pm |
| December 7 | Pantomime visit – Year 7 |
| December 8 | Closing date of consultation on Primary sector times change |
| December 11 - 21 | GCSE Mock examinations yr 11 |
| December 12 | Year 10 Dragons Den Challenge (Welsh Bacc) |
| | Christmas Concert (Secondary) 5pm & 7pm; Dewi Sant Church, Ystalyfera |
| December 13 | 'Topping out' Ceremony Ysgol Gymraeg Bro Dur: 10 - 11.30am |
| December 19-21 | Year 12 & 13 Examinations |
| December 21 | GCSE & A Level Award Ceremony 2017, 2pm |
| **December 22** | School Christmas Assemblies, Eglwys Dewi Sant |
| | **End of term 2.30pm** |
| **January 8** | **INSET 3 – No school for pupils (Primary & Secondary)** |
| **January 9** | **Start of spring term all pupils (Week 2)** |

Finally I would like to thank you for your untiring support for the school and invite you to contact us if you have any concerns or wish to seek clarification on any matter.

Yours truly,

Matthew H T Evans
Head

PS - remember to join our twitter accounts at **@YsgolYstalyfera** and the School Council at **@CYYGY**.